TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Fforwm Rhanbarthol Rhanddeiliaid Cymru a'r Gororau

# Wales and Borders Regional Stakeholder Forum

## 23 Chwefror 2021

## Adroddiad o'r cyfarfod

## Meeting report

# Fforwm Rhanbarthol Rhanddeiliaid Cymru a'r Gororau

Cyfarfu'r fforwm ar 23ain Chwefror 2021, 10:00 – 12:30

**Yn bresennol**

## Aelodau'r Fforwm

| | | |
|---|---|---|
| Adam Graham | Prif Gynllunydd Trafnidiaeth, Cyngor Warrington | |
| Ann Elias | Ymgysylltu Rhanbarthol Trafnidiaeth Strategol, Fforwm Twf Canolbarth Cymru | |
| Christian Schmidt | Rheolwr Rhaglenni a Phrosiectau Trafnidiaeth, Cyngor Sir Fynwy | |
| David Beer | Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus | |
| David Jones | Rheolwr Datblygu'r Rheilffyrdd, Rhanbarth Dinas Lerpwl | |
| Debby Taylor | Swyddog Cefnogi Contractau, Cyngor Dwyrain Swydd Gaer | |
| Gerard Rhodes | Trafnidiaeth a Seilwaith, Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer | |
| Heather Bolton | Uwch Gynllunydd Trafnidiaeth, Cyngor Telford a Wrekin | |
| Michelle Roles | Rheolwr Rhanddeiliaid Cymru, Transport Focus | |
| Neva Mowl | Swyddog Teithio Cynaliadwy, Prifysgolion Cyfun Gorllewin Canolbarth Lloegr | |
| Sean Croshaw | Rheolwr Rheilffyrdd Strategol, Trafnidiaeth Manceinion Fwyaf | |
| Sheila Dee | Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol (Caer Amwythig), Cyngor Wrecsam | |
| Tracey Messner | Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail | |
| Victoria Hammond | Uwch Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth, Cyngor Sir Swydd Henffordd | |

## Trafnidiaeth Cymru – Roedd aelodau eraill o dîm TrC yn bresennol i hwyluso

| | | |
|---|---|---|
| Alexia Course | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth | |
| James Price | Prif Weithredwr | |
| Jeremy Whitaker | Arweinydd Twf Rhwydwaith | |
| Lewis Brencher | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu | |
| Louis Mertens (Clerc) | Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned | |
| Matt Sneddon | Dadansoddwr Cyflenwi Gwasanaethau | |
| Nichole Sarra (Cadeirydd) | Rheolwr Rhanddeiliaid | |

## Siaradwyr Allanol

| | | |
|---|---|---|
| Andy Scogings | Pennaeth Cynllunio Strategol, Network Rail | 11:45 – 12:05 |
| James Jackson | Cyfarwyddwr Rhaglen y Diwydiant, Network Rail | 11:45 – 12:05 |
| Michelle Roles | Rheolwr Rhanddeiliaid, Cymru, Transport Focus | 10:05 – 10:20 |

| | | |
|---|---|---|
| Richard Gibson | Rheolwr Rhanddeiliaid, Cymru a Gorllewin Lloegr, CrossCountry Trains | 12:05 – 12:25 |
| Tracey Messner | Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail | 11:45 – 12:05 |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Alison Torrens | Swyddog Gweithredol, Prifysgolion Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| Andy Moreton | Rheolwr Gwaith Seilwaith Strategol, Cyngor Sir Swydd Amwythig |
| Eddie Muraszko | Dirprwy Gyfarwyddwr, Canolbarth Lloegr, Gogledd Lloegr a Chymru, Yr Adran Drafnidiaeth |
| Fay Easton | Pennaeth Rhanddeiliaid a'r Gymuned, Rheilffordd Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| Hannah McDonnell | Cyd-gyfarwyddwr, Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Swydd Gaerloyw |
| Jon Harris | Cyd-gyfarwyddwr, Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Swydd Gaerloyw |
| Mark Hooper | Arweinydd Prosiect, Visit Shropshire |
| Matt Johnson | Rheolwr Gweithredol, Prosiectau Strategol, Cyngor Sir Swydd Amwythig |
| Matt Powell | Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau, Rheoli Rhwydwaith Priffyrdd a Thrafnidiaeth Strategol, Cyngor Telford a Wrekin |
| Michelle Mitchell | Arweinydd Grŵp, Priffyrdd a Thrafnidiaeth, Cyngor Torfaen |
| Mike Learmond | Uwch Reolwr Datblygu Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Paul Colman | Prif Weithredwr, Siambr Fasnach De Swydd Gaer |
| Paul Jones | Pennaeth Gwasanaethau Dinas, Cyngor Dinas Casnewydd |
| Peter West | Uwch Reolwr Masnachol, Gwasanaethau Teithwyr, Yr Adran Drafnidiaeth |
| Rachel Jones | Swyddog Datblygu Economaidd, Visit Herefordshire |
| Rhiannon Jane-Raftery | Cydlynydd Datblygu Rheilffyrdd Cymunedol, Cymdeithas Cludiant Cymunedol |
| Robert Niblett | Uwch Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Swydd Gaerloyw |
| Sarah Spink | Rheolwr Rhanddeiliaid, Midlands Connect |
| Steven Gardner-Collins | Cyfarwyddwr, Visit Gloucestershire |
| Tim Mitchell | Uwch Swyddog Cynllunio Trafnidiaeth, Cyngor Dinas Birmingham |
| Toby Rackliff | Arweinydd Strategol, Polisi Rheilffyrdd, Gweithredwr Rheilffyrdd Gorllewin Canolbarth Lloegr |
| Tom Painter | Gweithredwr Rheilffyrdd Gorllewin Canolbarth Lloegr |

## Nodyn gan y Cadeirydd, Nichole Sarra

*"Roedd hi'n bleser cadeirio Fforwm Rhanddeiliaid y Gororau unwaith eto. Rwy'n hynod o ddiolchgar i bob un o'n cyflwynwyr am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, ac i'n haelodau am gyfrannu â'u syniadau, adborth a chwestiynau. Roedd hwn yn fforwm pwysig iawn ar gyfer rhannu diweddariadau gweithredol a chasglu gwybodaeth am sut y dylem fod yn dod â phobl yn ôl i drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl Covid-19, ac roedd y cyfraniad a gafwyd yn amhrisiadwy. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i holl aelodau'r gororau am estyn allan ar adegau yn ystod y sesiwn gyda syniadau ynghylch sut y gallwn gydweithio i wella gwasanaethau trawsffiniol a darparu gwasanaeth gwell i'n cwsmeriaid yng Nghymru a Lloegr. Diolch i chi am eich amser a'ch cyfraniadau amhrisiadwy."*

# Agenda

## 1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Nichole Sarra aelodau'r fforwm i bedwerydd cyfarfod Fforwm Rhanbarthol Cymru a'r Gororau. Cyflwynodd Nichole fformat y cyfarfod, gan gynnwys defnyddio Mentimeter, ac atgoffodd bawb o'r negeseuon Teithio'n Saffach a rheolau Llywodraeth Cymru sydd ar waith o hyd ledled Cymru mewn perthynas â phandemig Covid-19.

## 2. Uchafbwyntiau TrC a'r dull newydd o weithredu ar gyfer rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Rhoddodd Alexia Course, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth (TrC) drosolwg o rai o'r llwyddiannau dros y ddwy flynedd diwethaf. Rhoddodd Alexia'r wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiannau allweddol, fflyd newydd, gwelliannau i wasanaethau cwsmeriaid ac agor Bow Street, ar Reilffordd y Cambrian yn ddiweddar rhwng y Borth ac Aberystwyth. Roedd y cyflwyniad byr hefyd yn trafod perchnogaeth a thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ers mis Awst 2020, yn ogystal â strwythur a chontract sefydliadol newydd TrC gyda Llywodraeth Cymru.

## 3. Gweledigaeth TrC ar gyfer 2021/22

Rhoddodd James Price, Prif Weithredwr (TrC), drosolwg o'r newidiadau a phwysigrwydd trafnidiaeth aml-ddull ar gyfer y dyfodol. Trafododd James y cyfrifoldebau a roddwyd i TrC gan Lywodraeth Cymru a sut mae'r rhain yn ffurfio amcanion strategol, cynllun busnes, strategaeth drafnidiaeth a chynllun cyflawni TrC ar gyfer y flwyddyn. Bydd gwaith yn y dyfodol yn dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i greu system drafnidiaeth integredig ac aml-ddull ar gyfer Cymru. Gwahoddir aelodau'r Fforwm hefyd i fynegi eu barn.

Gofynnodd David Beer, Transport Focus, sut roedd James yn teimlo y byddai datganoli'r rheilffyrdd o fudd i Gymru, a sut roedd yn teimlo y byddai datganoli yn gweithio ar y gororau o ystyried y gorgyffwrdd rhwng buddiannau Llywodraeth Cymru ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Awgrymodd James fod TrC wedi manteisio i'r eithaf ar allu'r seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru cyn COVID gyda chynlluniau TrC. Mae angen inni weithio gyda llawer o bartneriaid ar draws y gororau er mwyn darparu gwasanaethau trawsffiniol, a byddai'n disgwyl y gallai seilwaith rheilffyrdd datganoledig gael ei reoli a'i weithredu yn yr un modd â'r seilwaith ffyrdd.

Eglurodd Sean Croshaw o Drafnidiaeth Manceinion Fwyaf (TfGM) ei fod yn teimlo nad oedd fawr ddim yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a oedd yn effeithio ar y gororau. Gofynnodd sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni yn y gororau, gan gynnwys Manceinion. O ran penderfyniadau buddsoddi mawr i gyflawni nodau allweddol fel datgarboneiddio, gofynnodd Sean sut y byddai TrC yn delio â'r penderfyniadau hynny er mwyn gwireddu'r uchelgeisiau ar draws y ffiniau. Eglurodd James fod TrC eisiau i Gymru gael ei chysylltu â lleoedd ar ochr arall y ffin a'i fod eisiau gweithio ar y cyd fel bod ein gwasanaethau'n cefnogi anghenion lleol yn TfGM ac yn yr un modd bod eu gwasanaethau hwythau'n cefnogi anghenion lleol yng Nghymru. Awgrymodd James ein bod yn neilltuo rhywfaint o amser i weithio drwy'r amcanion hyn, a chytunodd Sean ar gyfarfod allanol.

*Esboniodd Kate Clark, a arweiniodd ar Strategaeth Drafnidiaeth Cymru ar ran Trafnidiaeth Cymru, y byddai cyflawni'r uchelgeisiau a nodir yn y strategaeth fesul rhanbarth yn dod yn fwy clir drwy Gynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cymru.*

Awgrymodd Ann Elias fod cysylltiad â'r Amwythig yn bwysig iawn ar gyfer Canolbarth Cymru a rheilffordd y Cambrian. Awgrymodd James fod angen i ni sicrhau gwasanaeth sy'n gweithio i deithwyr mewn byd ar ôl Covid, ynghyd â gwasanaeth pellter hir, ac na ddylai teithwyr ar deithiau pell ddioddef amodau cymudo. Dywedodd Ann y bydd teithio hamdden yn dod yn bwysicach.

Cododd Gerard Rhodes o Gyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer bwynt a gofynnodd am fwy o gydweithio â Thîm Rheilffyrdd Cymunedol TrC. Er bod enghreifftiau da o gydweithio gan TrC, nid oedd yn teimlo bod hynny'n cael ei gyflawni'n gyson.

## 4. Pris Tocynnau yn yr Adferiad

Trafododd Jeremy Whitaker, Arweinydd Twf y Rhwydwaith (TrC) y gostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gan ystyried pandemig Covid-19 sy'n parhau. Esboniodd Jeremy yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar brisiau tocynnau o fis Ionawr 2021 ymlaen. Rhoddodd Jeremy drosolwg o strategaeth ranbarthol gan Network Rail ar newidiadau i brisiau tocynnau wedi'u rheoleiddio, cyfleoedd prisio tactegol ar gyfer byd ôl Covid-19 a datblygu cynnyrch newydd i annog pobl i fynd yn ôl ar y rhwydwaith pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny.

Gofynnwyd cwestiynau i Jeremy am brisiau tocynnau yn ystod y sgwrs, ac ymatebwyd i'r rhain mewn e-bost ar ôl y sesiwn.

Cadarnhaodd Jeremy fod TrC yn gweithio ar strwythur prisiau parthau diwygiedig ar gyfer Metro De-ddwyrain Cymru sy'n cynnwys bysiau a threnau ac sy'n ystyried Adroddiad Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru, a gwnaeth sylwadau ar y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddiwygio prisiau tocynnau ledled Cymru a'r Gororau.

## 5. Gweithdy: Meithrin Ymddiriedaeth Teithwyr mewn Trafnidiaeth Gyhoeddus ar ôl COVID

Rhoddodd David Beer, Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus, y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil Transport Focus a gwybodaeth am deithio gan deithwyr yn y dyfodol, gan ystyried pandemig Covid-19. Eglurodd David fod Transport Focus wedi bod yn parhau i arolygu teithwyr a bod y canlyniadau yn amlygu rhai o'r heriau, gan gynnwys y canfyddiad o ddiogelwch a glendid ar drafnidiaeth, a'r newid mewn agweddau teithio ar gyfer hamdden a chymudo at ddibenion gwaith/busnes.

Arweiniodd Lewis Brencher, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu (TrC), ymlaen o'r cyflwyniad a gynhaliwyd gan Transport Focus a darparodd ail sesiwn gweithdy yn seiliedig ar adborth, a thynnwyd sylw at dair thema allweddol gan aelodau'r fforwm yn ystod y fforwm olaf. Edrychodd y sesiwn ar y themâu hyn yn fwy manwl ac ar Sense Maker fel arf arolygu. Eglurodd Lewis fod croeso bob amser i sylwadau pellach ac y gellir cysylltu ag ef drwy lewis.brencher@tfw.wales

Thema 1: Deall **ofn** a'r camau ymarferol y gallwn eu cymryd i leihau hyn

Thema 2: Edrych ar gynlluniau **prisiau** posibl a beth allai fod yn addas ar gyfer anghenion teithio yn y dyfodol

Thema 3: Edrych ar **hyblygrwydd**; beth yw'r 'normal newydd' a sut gall trafnidiaeth addasu i gyd-fynd â hynny

Roedd y trafodaethau yn y grwpiau bach yn cynnwys:

- “Er mwyn annog pobl i ailddechrau defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, mae angen i ni wneud mwy i helpu pobl i rannu eu profiadau cadarnhaol o drafnidiaeth gyhoeddus”
- “Mae prisiau’n rhy gymhleth o lawer ar hyn o bryd. Wrth symud ymlaen, bydd angen i ni sicrhau eu bod nhw’n syml ac yn hawdd eu deall”
- “Bydd pobl eisiau system drafnidiaeth gyhoeddus sy’n rhoi hyblygrwydd iddyn nhw ac sy’n ymateb i’w hanghenion personol”
- “Bydd dydd Sul yn dod yn ddiwrnod arall, a gall patrymau teithio yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau ddod yn debyg iawn”
- “Mae angen i ni leihau amseroedd aros hir rhwng dulliau teithio a sicrhau gwir integreiddiad”

Bydd adborth y gweithdai yn cael ei gasglu ynghyd mewn cyfres ehangach o ymgynghoriadau y mae TrC yn eu cynnal ar draws y bensaernïaeth gynghori ac fel rhan o’i arolwg gwneud synnwyr cyhoeddus. Mae hyn yn sail i ymgyrch newydd, The Campaign of Our Lives, sy’n ceisio annog defnyddwyr i ddychwelyd i drafnidiaeth gyhoeddus.

## 6. Sesiwn Holi ac Ateb Panel Network Rail

Gwahoddodd Tracey Messner, Rheolwr Materion Cyhoeddus Network Rail, gwestiynau ac adborth ar ddatblygiad y rheilffyrdd yng Nghymru a’r Gororau. Gofynnodd Tracey i aelodau’r fforwm roi eu barn am Network Rail a sut y gallai wella gwasanaethau ar gyfer aelodau fforwm Cymru a’r Gororau.

Esboniodd Ann Elias, o Fforwm Twf Canolbarth Cymru, ei bod yn teimlo bod Network Rail yn ddrud, a’i bod yn anodd cyfleu i randdeiliaid eraill y rhesymeg y tu ôl i’r costau. Awgrymodd Ann y dylid cyfathrebu’r costau’n well i’r cyhoedd er mwyn rheoli disgwyliadau. Roedd James Jackson, Cyfarwyddwr Rhaglen y Diwydiant, Network Rail, yn cydnabod y materion ac yn awgrymu bod trafodaethau’n cael eu cynnal ar y pwnc hwn o fewn Network Rail. Awgrymodd Andy Scogings, Pennaeth Cynllunio Strategol, fod Network Rail yn chwilio am gyfleoedd i wneud gweithrediadau’n fwy effeithlon, ond bod angen i hyn ymestyn i bartneriaid fel bod modd iddyn nhw sicrhau gwerth am arian pan fydd eraill yn gwneud gwaith mewn gorsafoedd.

Awgrymodd Sean Croshaw eu bod yn ei chael hi’n anodd prisio buddsoddiadau i’r dyfodol pan oedd TfGM yn buddsoddi mewn achosion bach. Awgrymodd ei bod yn bwysig buddsoddi’r costau cynyddrannol o fynd y tu hwnt i’r hyn sydd ei angen nawr, fel nad oes angen i bartneriaid fynd yn ôl a buddsoddi mwy yn ddiweddarach. Awgrymodd Andy Scogings fod angen i gydweithwyr edrych ar y rhwydwaith yn gyfannol, y tu hwnt i’r rhanbarthau mae Network Rail wedi’u rhannu iddynt, er mwyn mynd i’r afael â materion ar draws y rhwydwaith. Ychwanegodd James mai diffyg cyfeiriad hirdymor i Network Rail oedd yn rhannol gyfrifol am y materion yr oedd Sean yn eu codi.

Dywedodd Gerard Rhodes fod angen gwneud mwy i ystyried rhyngddibyniaethau nodau rhanbarthol, a beth yn union yw’r blaenoriaethau hynny yn hytrach na pha ardaloedd daearyddol sy’n gallu buddsoddi fwyaf yn y gwaith ymchwil a dichonoldeb. Awgrymodd Andy fod TrC yn arwain nifer o ffrydiau gwaith yng Ngorllewin Swydd Gaer a bod Network Rail yn gweithio gyda TrC i weithio ar draws ffiniau rhanbarthol.

Gofynnodd Christian Schmidt, Cyngor Sir Fynwy i Network Rail a TrC ddod yn ôl at y rhanddeiliaid gyda phroses ymgysylltu gyson ar gyfer awdurdodau lleol, yn hytrach na gorfod delio â nhw’n annibynnol. Yn hytrach, byddai TrC yn y sefyllfa orau i gysylltu â Network Rail mewn perthynas â phrosiectau a chynigion buddsoddi.

7. **CrossCountry Trains: Dyfodol Teithio Trawsffiniol**

   Rhoddodd Richard Gibson, Rheolwr Rhanddeiliaid Gorllewin Lloegr a Chymru, CrossCountry Trains, drosolwg o faint gweithrediad CrossCountry, a sut mae'n rhagweld y bydd y gwasanaeth yn newid yn y dyfodol. Esboniodd sut mae nifer y teithwyr wedi newid ar draws gwahanol gyfnodau. Esboniodd Richard fod CrossCountry wedi ailstrwythuro'n ddiweddar i ganiatáu iddynt ymateb i randdeiliaid mewn rhanbarthau fel "Gorllewin Lloegr a Chymru". Awgrymodd Richard fod CrossCountry yn dymuno meithrin perthynas gryfach â'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu, gan gynnwys ffocws cryfach ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned, cyfleoedd cyllido posibl a chynnal ymgynghoriadau rheolaidd.

8. **Unrhyw fater arall**
   Daeth Nichole Sarra â'r fforwm i ben drwy ddweud bod croeso i aelodau gysylltu â thîm Cymru a'r Gororau ynghylch unrhyw eitemau a fyddai'n berthnasol yn eu barn nhw yn y dyfodol, a gofynnodd iddynt lenwi ffurflen adborth ddewisol.

## Camau Gweithredu

Codwyd y camau gweithredu isod yn ystod y fforwm a rhoddir sylw iddynt cyn y Fforwm Rhanbarthol nesaf lle bo hynny'n bosibl.

| Cam Gweithredu | Beth fydd yn cael ei wneud? |
|---|---|
| Trefnu cyfarfod gyda Sean Croshaw, Trafnidiaeth Manceinion Fwyaf. | Fe wnaethom gwrdd â Sean Croshaw i drafod sut gallem gydweithio â Thrafnidiaeth Manceinion Fwyaf a gwireddu'r uchelgeisiau cyffredin ar gyfer rhyng-gysylltiad rhanbarthol. Mae ail gyfarfod hefyd wedi cael ei drefnu i ddilyn y rownd nesaf o fforymau. |
| Wrth symud ymlaen, ystyried proses ymgysylltu i welliannau i'r seilwaith rheilffyrdd gael eu hystyried mewn Fforwm yn y dyfodol. | Bydd yn trafod gyda chydweithwyr y rhwydwaith pa broses sydd eisoes ar waith a ble gallwn weithio gyda'n gilydd i wneud delio â phrosiectau sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd yn symlach i bartneriaid Awdurdodau Lleol. |
| Jeremy Whitaker i gysylltu â Christian Schmidt eto i ateb ymholiadau ynghylch prisiau a chyflwyno tocynnau. | Cysylltodd Jeremy Whitaker ag aelodau'r fforwm a oedd wedi gwneud ymholiadau'n uniongyrchol. |

## Uchafbwyntiau sgwrs ddigidol y fforwm

Dyma oedd uchafbwyntiau'r sgwrs o fewn swyddogaeth sgwrsio'r Fforwm:

"Lansio Gwasanaethau Rheilffyrdd Newydd rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl (tfwrail.wales) Lansio Gwasanaethau Rheilffyrdd Newydd rhwng Gogledd Cymru a Lerpwl. Gan ddechrau heddiw, bydd Trafnidiaeth Cymru yn rhedeg gwasanaethau rheilffyrdd bob awr rhwng Gogledd Cymru a Swydd Gaer i Lerpwl."

"Dileu anghysonderau ym Metro De-ddwyrain Cymru" – yr anghysonderau mwyaf ym Metro De-ddwyrain Cymru yw'r gwahaniaeth mewn prisiau rhwng Y Fenni, Cas-gwent, Cil-y-coed a STJ o'i gymharu â gorsafoedd cyfatebol yn y rhanbarthau. A fwriedir mynd i'r afael â hyn, ac os felly, sut?

"Un o ganlyniadau'r cynllun tocynnau teithio rhatach ar fysiau yn unig yw ei fod yn annog gwasanaethau bws gwastraffus sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r rheilffyrdd. A fwriedir mynd i'r afael â hyn, ac os felly, sut?"

"Diolch yn fawr. Bodlon iawn delio ag unrhyw faterion yn uniongyrchol gyda chi os yw hynny'n ddefnyddiol. Jeremy"

"Ar y cyfan, roedd y cyflwyniad ar docynnau wedi creu argraff!"

"Mae'r Llywodraeth yn ymgynghori ar Dasglu Adfer Manceinion. Bydd un o'r cynigion hynny yn golygu y bydd Gogledd Cymru yn colli cysylltiad uniongyrchol â maes awyr Manceinion a Warrington, Runcorn, Helsby a Frodsham. Mae hyn yn mynd yn groes i waith GT360 ac agenda cysylltedd undebau'r Llywodraeth ei hun."

"Helo, rydyn ni (TrC) yn paratoi ymateb i'r ymgynghoriad a byddwn yn codi hyn yn y cyfarfod maes o law. Yn yr un modd, rydyn ni'n fwy na pharod i drafod hyn ymhellach ar ôl y fforwm. Diolch"

"Yn fy marn i, nid yw amserlen bresennol Caerdydd-Birmingham yn gweithio'n dda i deithwyr IC pell na'r trefi marchnad rhanbarthol. Ydych chi'n edrych ar hynny? (FWIW Rwy'n teimlo y byddai'n werth gwneud hyn ar y cyd â GWR a TrC)"

"O ran datblygu marchnadoedd newydd, sut mae hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr â'r rôl bosibl ar ôl HS2 i CrossCountry?"

"Opsiynau o ran amserlenni i wella perfformiad y rheilffyrdd yng ngogledd Lloegr - GOV.UK (www.gov.uk)"

"Fforwm ardderchog – wedi'i reoli'n dda iawn o ystyried nifer y bobl a oedd yn bresennol"

"da iawn bawb, sesiwn ddiddorol iawn"

## Y Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Nesaf

Bydd y Fforwm Rhanbarthol Rhanddeiliaid Cymru a'r Gororau nesaf yn cael ei gynnal ddydd Gwener 21ain Mai 2021. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein ar lwyfan Microsoft Teams rhwng 10:00 a 12:00.